COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DLl232

Amseru: Arferol

Teitl: Dyfarnu contract ar gyfer Gwaith Isadeiledd Trydanol yn y Pencadlys.

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid / Ystadau

Crynodeb Gweithredol:

Y mae wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd diweddar bod darn sylweddol o offer trydanol sy'n gwasanaethu safle'r Pencadlys yn dod i ddiwedd ei oes ddefnyddiol. Cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb i asesu'r risg o gynnal gwaith ailosod, a chynllun i liniaru'r risgiau hyn, a pharatowyd manyleb tendro a'i chyflwyno.

Yn dilyn proses tendro agored drwy E-tender Wales, cynhaliwyd arolwg trylwyr o bob contractiwr dichonol. Yr argymhelliad o fewn yr adroddiad sy'n dilyn o hynny, yw y dylai'r contract gael ei ddyfarnu i Highland Services am gost o £599,277.27.

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiectau'r adroddiad hwn i'r Grŵp Ystadau Gweithredol ar yr 21ain o Fedi 2021, a nodwyd cytundeb gyda'r argymhelliad hwn. Ymhellach, yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 28ain Medi 2021 cafodd yr adroddiad ei adolygu'n drwyadl unwaith eto a'i gadarnhau.

Argymhelliad:
Gofynnir i'r Comisiynydd adolygu'r wybodaeth uchod, ynghyd â'r adroddiad sydd ynghlwm, a chymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen fel y crynhowyd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad: 29/09/2021**